# Pwyllgor Adnoddau Dynol

**17 Ionawr 2024**

Yn Bresennol (yn Bersonol)
Mrs J James (Cadeirydd)
Cynghorydd Mrs D Clements, Cynghorydd SL Hancock MBE, Mr GA Jones, Cynghorydd R Jordan a'r Cynghorydd A Wilcox.

Swyddogion yn Bresennol
Prif Weithredwr, Pennaeth Gwasanaethau Pobl, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd.

(Cyfarfod Rhithiol: 2.00 pm – 2.55 pm)

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd M James, Dr R Heath- Davies a'r Cynghorydd PJ Morgan.

**2. Datgan Buddiannau**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**3. Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Hydref 2023 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

**Penderfynwyd** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Hydref 2023**.**

**4. Fforwm Gweithwyr – adroddiad y cyfarfod**

Cyflwynwyd adroddiad y cyfarfod o'r Fforwm Gweithwyr a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd 2023 i'w ystyried.

Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Pobl ei bod ar drywydd cael achrediad fel Cyflogwr Cyflog Byw, a bod ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i roi disgownt i'r staff ar brynu tocyn tymor meysydd parcio. Barn y cyfarfod oedd bod yr Awdurdod yn darparu rhestr gynhwysfawr o fuddion i'r staff, gan gymryd i ystyriaeth hefyd y polisïau gweithio hyblyg a'r polisïau eraill oedd yn eu lle oedd yn hwyluso cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.

**PENDERFYNWYD** mabwysiadu adroddiad y cyfarfod o'r Fforwm Gweithwyr a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd 2023.

**5. Log Gweithredu a Materion yn Codi**

Nodwyd y camau gweithredu oedd wedi'u cwblhau. O ran Gweithred 929 'Cyflwyno gwybodaeth ynghylch Iechyd a Diogelwch', cytunodd yr Aelodau y byddai adolygiad o'r Cylch Gorchwyl yn ddefnyddiol.

**6. Diweddariad ar Reoli Adnoddau Dynol**

Roedd yr adroddiad yn rhoi diweddariad ar yr Adolygiad Cyflogau a Graddfeydd oedd ar waith ar y pryd. Nodwyd bod cam 1 o'r prosiect wedi llithro'n ôl o ran amser ac y rhagwelwyd bellach y byddai gwerthusiad o bob swydd wedi'i gwblhau gan yr Ymgynghorwyr erbyn 24 Ionawr 2024. Serch hynny y gobaith oedd achub ar amser i sicrhau nad oedd yr amserlen o gwblhau'r Adolygiad yn ymestyn y tu hwnt i ddechrau mis Mawrth 2024.

Aeth yr adroddiad rhagddo i amlinellu manylion y Diwrnod Llesiant a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2023, absenoldeb salwch staff, cyfarfodydd y Fforwm Gweithwyr a'r Grŵp Cynrychiolwyr Staff a'r newidiadau oedd yn yr arfaeth yn y Ddeddfwriaeth Cyflogaeth. Hefyd darparwyd ystadegau ar nifer o Fetrigau Adnoddau Dynol.

Roedd gan yr Aelodau ddiddordeb mewn gwybod mwy am y Diwrnod Llesiant ac yn gobeithio y gellid cynnal digwyddiadau tebyg mewn gweithleoedd eraill yr Awdurdod ac y gellid trefnu digwyddiadau yoga a cherdded rheolaidd fel yr awgrymwyd yn yr adroddiad. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Pobl bod adborth o'r diwrnod yn dal i gael ei ddadansoddi a bod ymdrechion yn cael eu gwneud i ddod o hyd i amser addas a chyfleus i gynnal sesiynau yoga rheolaidd. Mewn ymateb i gwestiwn, rhoddodd hefyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am yr ymdrechion i recriwtio gweithwyr iau ac ychwanegodd y byddai'r gwaith hwn yn parhau. Holodd yr Aelodau hefyd sut y byddai'r Awdurdod yn gweithredu Deddf Diogelu Gweithwyr (Diwygiadau i Ddeddf Cydraddoldeb 2010) 2023 a dywedwyd bod codau ymddygiad clir yn eu lle, a bod y staff yn ymwybodol o'r safonau ymddygiad a ddisgwylir.

Gofynnodd y Cadeirydd am adolygiad o'r ymarfer ailstrwythuro staff a gynhaliwyd yn 2023 a chytunodd y Prif Weithredwr y gellid cynnig hyn yn anffurfiol i'r Aelodau.

Nodwyd hefyd bod gwahaniaeth yn yr ystadegau absenoldeb salwch a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol a'r ystadegau yn y Metrics oedd gerbron y Pwyllgor. Gofynnodd y Cadeirydd i'r swyddogion ymchwilio i hyn. Hefyd mynegodd yr Aelodau eu pryder ynghylch y lefelau o gydymffurfio â rhai elfennau o'r hyfforddiant gorfodol, a holwyd a oedd hyn yn effeithio ar yr absenoldeb salwch. Atebodd y Pennaeth Pobl nad oedd unrhyw gysylltiad amlwg rhwng hyn â'r rhai sydd ar hyn o bryd ar absenoldeb salwch hirdymor, a bod camau dilynol yn cael eu cymryd mewn achos o ddiffyg cydymffurfio. Fodd bynnag, cytunodd i gyflwyno rhagor o

wybodaeth yn yr adroddiad i'r Pwyllgor nesaf ac i godi'r mater gyda'r Rheolwyr.

**Nodwyd.**

Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o’r Pwyllgor Adnoddau Dynol a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2024 heb eu diwygio.